WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad er Budd y Cyhoedd: Diffygion o ran llywodraethu a rheoli ariannol – **Cyngor Cymuned Llangristiolus a Cherrigceinwen**


Blynyddoedd archwilio: 2013-14 a 2014-15

Dyddiad Cyhoeddi: Ionawr 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 822A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Cymuned Llangristiolus yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

I’r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid yw’r Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn nac yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw ddefnydd arall o’r adroddiad hwn, yn ei gyfanrwydd neu’n rhannol, nac o unrhyw wybodaeth a nodir ynddo, gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu capasiti unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â’r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, a, pan fo’n berthnasol, yr archwilydd penodedig, yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio’r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg.

Y person a gyflawnodd y gwaith oedd Ian Hughes, o dan gyfarwyddyd Anthony Barrett.

# Cynnwys

Gan weithredu o dan drefniadau dirprwyedig ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 22 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, i dynnu sylw'r cyhoedd at ddiffygion o ran llywodraethu, rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol yng Nghyngor Cymuned Llangristiolus a Cherrigceinwen.


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Canfyddiadau allweddol 5

Adroddiad manwl

Nid yw’r Cyngor wedi cydymffurfio ag amserlenni statudol ar gyfer paratoi a chymeradwyo ei gyfrifon am nifer o flynyddoedd 6

Nid oes digon o dystiolaeth i gadarnhau pa un a oes trefniadau priodol wedi eu gwneud neu beidio o ran ymarfer hawliau’r cyhoedd 8

Mae trefniadau llywodraethu’r Cyngor yn anghyson â’r datganiadau cadarnhaol y mae wedi eu gwneud yn ei Ddatganiadau Blynyddol 8

Nid yw’r Cyngor wedi cynnal rheolaethau mewnol digonol i ddiogelu ei asedau a’i gyllid 9

Mae effeithiolrwydd yr archwilio mewnol wedi ei wanhau oherwydd anfodlonrwydd i adrodd ar bryderon am lywodraethu gwael yn uniongyrchol i’r Cyngor 11

Mae’r Cyngor bellach wedi cymryd nifer o gamau pwysig i fynd i’r afael â gwendidau llywodraethu a amlygir yn yr adroddiad hwn 13

Argymhellion 14

Camau nesaf 14

Atodiadau

Atodiad 1 – pryderon a godwyd gan archwilydd allanol ynglŷn â sut y mae’r Cyngor yn cydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 16

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Cyhoeddir yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd o dan adran 22 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf). Rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn i dynnu sylw'r cyhoedd at ddiffygion o ran llywodraethu a rheolaeth ariannol yng Nghyngor Cymuned Llangristiolus a Cherrigceinwen (y Cyngor). Credaf ei bod yn bwysig i'r cyhoedd gael ymwybyddiaeth lawn a phriodol o'r digwyddiadau sy'n ymwneud â'r Cyngor.

2 Rwyf hefyd o'r farn ei bod yn briodol rhoi cyfle i'r Cyngor ddangos y camau pwysig a gymerwyd eisoes i wella trefniadau a sicrhau y lleiheir y risg y bydd methiannau llywodraethu o'r fath yn ailddigwydd cymaint â phosibl. Mae gwersi i'w dysgu nid yn unig gan y Cyngor, ond gan bob cyngor cymuned yng Nghymru.

3 Mae'r Cyngor yn gwasanaethu cymuned fach wledig ar arfordir gorllewinol Ynys Môn. Mae'n gwario ychydig yn llai na £7,000 y flwyddyn fel arfer, a ariennir gan braesept yn bennaf, a daw'r cyllid ar gyfer y gweddill o rent a ffioedd mynwent. Mae'n cyflogi un aelod staff rhan-amser i gyflawni swyddogaethau Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol (y Clerc). Cafodd y cyn-Glerc, Mrs Rhian Khadrani, (y cyfeirir ati fel 'y cyn-Glerc' drwy gydol yr adroddiad hwn) ei phenodi gan y Cyngor yn 2009 ac ymddiswyddodd ym mis Medi 2017.

4 Credaf ei bod yn bwysig nodi, er mwyn rhoi cyd-destun, bod gan y cyn-Glerc swydd amser llawn arall mewn llywodraeth leol a hefyd roedd ganddi dair swydd Clerc rhan-amser arall ar yr un pryd.

5 Cyfuniad o oedi wrth gael gwybodaeth gan y Cyngor, ynghyd â sylwadau andwyol yn adroddiad yr Archwilydd Mewnol, a sbardunodd archwilydd allanol y Cyngor (Hacker Young) i ehangu cwmpas gwaith archwilio cyfrifon 2013-14. Ni lwyddodd Hacker Young i gael yr holl wybodaeth y gofynnodd amdani gan y Cyngor i'w alluogi i gwblhau gwaith archwilio cyfrifon 2013-14. Yn dilyn hynny, ailbennwyd y gwaith archwilio hwn, ynghyd â'r gwaith hwnnw ar gyfer 2014-15, i aelod o staff Swyddfa Archwilio Cymru i weithio o dan fy nghyfarwyddyd i, er mwyn dod â nhw i gasgliad boddhaol.

6 Gwnaeth fy staff archwilio ohebu yn eang â chyn-Glerc y Cyngor er mwyn cael gafael ar weddill yr wybodaeth yn gysylltiedig â chyfrifon 2013-14 a 2014-15 ond buont yn aflwyddiannus. Ar ôl hynny, cynhaliwyd cyfarfod rhyngddynt a Chadeirydd y Cyngor, a alwodd am gyfarfod arbennig o'r Cyngor i drafod y sefyllfa, gan nad oedd yn ymwybodol o'r problemau parhaus.

7 Ymddiswyddodd cyn-Glerc y Cyngor yn fuan ar ôl y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ym mis Awst 2017, ac mae unigolyn newydd yn cyflawni'r dyletswyddau erbyn hyn. Mae'r Cyngor wedi cymryd nifer o gamau pwysig i fynd i'r afael â materion a godwyd yn ystod y gwaith archwilio, ond mae ei ymdrechion wedi eu rhwystro gan anawsterau o ran derbyn ei holl gofnodion a'i asedau gan y cyn-Glerc.

8 Mae fy nghanfyddiadau archwilio yn dangos diffygion hirsefydlog mewn llywodraethu, rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol yn y Cyngor ac fe'u crynhoir isod. Fe'u hystyrir yn fanylach yng ngweddill y ddogfen hon.

# Canfyddiadau allweddol

9 Nid yw'r Cyngor wedi cydymffurfio ag amserlenni statudol ar gyfer paratoi a chymeradwyo ei gyfrifon am nifer o flynyddoedd. Er bod gweithrediadau'r cyn-Glerc yn araf, mae'r broblem yn ddyfnach na hynny ac yn adlewyrchu bod trefniadau goruchwylio a chymryd cyfrifoldeb y Cyngor yn annigonol ar y cyfan. Mae'r Cyngor yn derbyn erbyn hyn y dylai fod wedi gwneud rhagor i sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol o ran paratoi a chymeradwyo ei gyfrifon yn brydlon, a bod aelodau wedi dibynnu gormod ar y cyn-Glerc heb graffu ar ei gwaith yn briodol.

10 Nid wyf wedi cael digon o dystiolaeth i ddangos bod y Cyngor wedi cydymffurfio â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 sydd (ymhlith pethau eraill) yn rhoi hawliau i'r cyhoedd weld y cyfrifon sydd i'w harchwilio.

11 Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn anghyson â'r datganiadau cadarnhaol y nododd yn ei Ddatganiad Blynyddol. Nid yw'r Cyngor wedi gwneud digon i sicrhau ei fod yn fodlon bod ei drefniadau llywodraethu yn effeithiol ac wedi eu datgelu yn deg. Nid yw aelodau'r Cyngor wedi cydnabod nac wedi gweithredu'n ddigonol ar ganfyddiadau cynharach eu harchwilydd mewnol na'u harchwilydd allanol o ran digonolrwydd ei drefniadau llywodraethu.

12 Nid yw'r Cyngor wedi cynnal rheolaethau mewnol digonol i ddiogelu ei asedau a'i gyllid. Mae cadw cofnodion wedi bod yn wael yn y Cyngor. Hefyd, roedd gliniadur y Cyngor wedi'i ddifrodi'n ddifrifol pan y'i dychwelwyd gan y cyn-Glerc yn dilyn ei hymddiswyddiad ym mis Medi 2017. Ni roddodd y cyn-Glerc esboniad credadwy na boddhaol am y difrod hwn i'r Cyngor.

13 Mae effeithiolrwydd yr archwilio mewnol wedi ei wanhau gan amharodrwydd i adrodd ar bryderon ynghylch llywodraethu gwael yn uniongyrchol i'r Cyngor. Er y byddai'r Archwilydd Mewnol yn rhannu ei bryderon â'r cyn-Glerc ac yn eu nodi mewn trafodaethau â'r archwilydd allanol, ni wnaeth uwchgyfeirio'r materion yn y Cyngor, er enghraifft drwy ofyn am amser yng nghyfarfod y Cyngor i rannu ei bryderon ag aelodau yn uniongyrchol. Fel arall, gallai fod wedi cyflwyno adroddiad manwl ysgrifenedig i'r Cyngor yn uniongyrchol i gefnogi'r amodau a nodwyd ar y Datganiad Blynyddol.

14 Mae'r Cyngor bellach wedi rhoi ar waith nifer o newidiadau sy'n mynd i'r afael â'r gwendidau a'r methiannau a nodir yn yr adroddiad hwn. Mae dyddiadau cyfarfodydd wedi eu haildrefnu i hwyluso gwaith craffu priodol ar faterion sy'n berthnasol i lywodraethu a rheoli cyllid. Mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad annibynnol o'i drefniadau ac mae wrthi'n cyflwyno polisïau a gweithdrefnau wedi eu hadolygu. Mae wedi cryfhau gweithdrefnau awdurdodi taliadau ac mae'n rhoi gwell drefniadau ar waith i nodi a chyfrif yn briodol am incwm y Cyngor o'r fynwent a rhentu eiddo.

15 Mae cyflenwr gwaith archwilio newydd, BDO, yn archwilio cyfrifon 2015-16 a 2016-17 ar hyn o bryd. Er bod llawer o'r problemau a nodir yn yr adroddiad hwn yn parhau i mewn i'r ddwy flynedd hyn, rwyf yn fodlon bod y Cyngor bellach yn cymryd camau gweithredu priodol i wella ei ddull o lywodraethu a rheoli cyllid.

# Adroddiad manwl

## Nid yw'r Cyngor wedi cydymffurfio ag amserlenni statudol ar gyfer paratoi a chymeradwyo ei gyfrifon am nifer o flynyddoedd

16 O dan adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, mae'n rhaid i'r Cyngor:

- baratoi ei gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth neu ddyddiad arall y gall Gweinidogion Cymru ei bennu yn gyffredinol neu mewn unrhyw achos arbennig; a
- sicrhau bod ei gyfrifon yn cael eu harchwilio yn unol â'r Ddeddf gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

17 Nodir manylion pellach ynglŷn â'r gofynion ar gyfer paratoi, cymeradwyo ac archwilio cyfrifon Cynghorau Tref a Chymuned yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014[1] a'u hategu gan ganllawiau a nodir yng Nghanllawiau'r Ymarferwyr[2].

18 Mae Rheoliad 15 yn nodi'r amserlen ar gyfer paratoi a chymeradwyo'r cyfrifon blynyddol:

- mae'n rhaid i Swyddog Ariannol Cyfrifol y cyngor[3] baratoi ac ardystio bod y datganiad o gyfrifon yn cyflwyno derbyniadau a thaliadau'r cyngor yn briodol, neu'n cyflwyno sefyllfa ariannol y cyngor yn deg, yn ogystal â'i incwm a'i wariant. Ceir tystiolaeth o'r ardystio wrth i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol lofnodi a nodi dyddiad ar y datganiadau cyfrifyddu. Gwneir darpariaeth ar gyfer llofnod a dyddiad mewn Datganiad Blynyddol;
- mae'n rhaid i gyfarfod llawn aelodau'r cyngor ystyried y datganiadau cyfrifyddu ac, ar ôl eu hystyried, mae'n rhaid iddynt gymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu i'w gyflwyno i'r archwilydd drwy benderfyniad y cyngor, ac wedi eu cymeradwyo, sicrhau bod y datganiadau cyfrifyddu wedi eu llofnodi a'r dyddiad wedi'i nodi gan y person sy'n cadeirio'r cyfarfod pan roddwyd y gymeradwyaeth honno; ac
- mae'n rhaid cwblhau'r camau hyn erbyn 30 Mehefin yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol.

19 Cyn gynted â phosibl ar ôl i'r Cyngor gymeradwyo'r Datganiad Blynyddol, mae'n rhaid ei anfon i'r archwilydd allanol. Ceir crynodeb o'r broses yn Arddangosyn 1 isod:


[1] Ac yn flaenorol yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005.

[2] Governance and Accountability for Local Councils in Wales – A Practitioners' Guide (2011).

[3] Y Clerc fel arfer, yn ymarferol, ond mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn swydd gyfreithiol ar wahân i swydd y Clerc.

## Arddangosyn 1: y cyfrifon a'r broses archwilio

Mae'r cyfrifon a'r trefniadau archwilio yn dilyn y broses a nodir isod.




20 Nid yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r amserlenni statudol a nodir uchod ar gyfer paratoi a chymeradwyo ei gyfrifon am nifer o flynyddoedd (gweler Atodiad 1). Ni chafodd cyfrifon 2013-14 eu cwblhau na'u cymeradwyo tan ddiwedd mis Mai 2015, rhyw ddeg mis ar ôl i'r dyddiad terfyn statudol ddod i ben. Ni chafodd cyfrifon 2014-15 eu cwblhau a'u cymeradwyo tan ddiwedd mis Tachwedd 2015, rhyw bedwar mis ar ôl i'r dyddiad terfyn statudol ddod i ben. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gwblhau cyfrifon 2015-16 a 2016-17.

21 Dengys cofnodion archwilio fod gan y Cyngor broblem hirsefydlog o fod yn hwyr yn cymeradwyo ac yn cyflwyno ei Ddatganiad Blynyddol ar gyfer archwilio allanol yn ystod yr wyth mlynedd yr oedd y cyn-Glerc yn ei swydd. Mae'r ohebiaeth yn y ffeil archwilio yn dangos bod camau gweithredu'r cyn-Glerc yn hwyr, ac yn cynnwys methiant i fynd i'r afael â phryderon a godwyd gan yr archwilydd allanol ac adrodd ar y pryderon hyn yn gywir i'r Cyngor.

22 Daeth aelod hirsefydlog o'r Cyngor (a Chadeirydd 2013-14) yn ymwybodol o broblemau ac ysgrifennodd at yr archwilydd allanol yn cynnig unrhyw gymorth y gallai ei roi i gyflymu gorffen y gwaith archwilio. Er hynny, ni lwyddodd yr aelod hwnnw i oresgyn, yr hyn yr wyf yn ei ystyried yn, agwedd amddiffynnol o ran sefyllfa'r cyn-Glerc ymysg aelodau eraill. Un enghraifft o hyn oedd y ffordd yr oedd y cyn-Glerc yn amlwg yn anhapus ag ymddygiad yr archwilydd mewnol ac yn dymuno i'r Cyngor benodi un newydd. Ar sail y dystiolaeth yr wyf wedi'i gweld, credaf fod y broblem wedi bod yn un ddiwylliannol ac wedi'i hymwreiddio yn y Cyngor ac y bu goruchwylio a chraffu gwael ar waith y cyn-Glerc.

23 Mae'r Cyngor yn derbyn erbyn hyn y dylai fod wedi gwneud rhagor i sicrhau ei fod wedi bodloni ei rwymedigaethau cyfreithiol er mwyn paratoi a chymeradwyo ei gyfrifon yn brydlon, a bod aelodau wedi dibynnu gormod ar y cyn-Glerc heb graffu ar ei gwaith yn briodol.

## Nid oes digon o dystiolaeth i gadarnhau pa un a oes trefniadau priodol wedi eu gwneud neu beidio o ran ymarfer hawliau'r cyhoedd

24 Mae adrannau 30 a 31 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, yn darparu ar gyfer hawliau'r cyhoedd, h.y. i bobl sydd â diddordeb i weld y cyfrifon sydd i'w harchwilio ac i etholwyr neu eu cynrychiolwyr, gwestiynu'r archwilydd ynglŷn â'r cyfrifon ac i gyflwyno gwrthwynebiadau i'r archwilydd ynghylch unrhyw fater y mae gan yr archwilydd y grym i:

- wneud cais am ddatganiad bod eitem mewn cyfrif yn anghyfreithlon; ac
- unrhyw fater arall y mae gan yr archwilydd y grym i gyflwyno adroddiad ynglŷn ag ef o dan adran 22 o'r Ddeddf.

25 Mae Rheoliad 17 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff hysbysu'r cyhoedd, ar ffurf hysbyseb mewn un neu ragor o leoedd amlwg, gan nodi'r cyfnod pan fydd y cyfrifon a dogfennau eraill ar gael i'w gweld.

26 Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth sy'n dangos bod y Cyngor wedi cydymffurfio â gofynion y Ddeddf na'r Rheoliadau. O ystyried hyn, rwyf wedi pennu 11 Ionawr 2019 fel y dyddiad y gall etholwyr lleol ymarfer eu hawliau ar gyfer cyfrifon 2013-14 a 2014-15 o dan y Ddeddf.

## Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn anghyson â'r datganiadau cadarnhaol y nododd yn ei Ddatganiadau Blynyddol

27 Yn ogystal â chyflwyno'r cyfrifon ar gyfer blwyddyn benodol, mae'r Datganiad Blynyddol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyflwyno datganiad ffurfiol ynghylch y trefniadau sydd ganddo ar waith ar gyfer ei lywodraethu a rheoli cyllid. Cyfeirir at hwn fel Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

28 Er bod union eiriad y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gallu amrywio o un flwyddyn i'r llall, fel arfer, mae'n cynnwys:

- paratoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu yn briodol;
- sicrhau y rhoddir cyfle priodol i etholwyr ymarfer eu hawliau i weld y cyfrifon;
- cwblhau asesiad blynyddol o'r risgiau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu a nodi pa gamau a gymerwyd i reoli'r risgiau hyn;
- cynnal system ddigonol o reolaeth fewnol, gan gynnwys camau sydd â'r bwriad o atal a chanfod twyll a llygredd; a
- chynnal system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol.

29 Ar gyfer y ddwy flynedd archwilio a ystyrir yn yr adroddiad hwn, 2013-14 a 2014-15, mae'r Cyngor wedi cwblhau'r datganiadau yn seiliedig ar y ffaith ei fod yn

cydymffurfio â’r disgwyliadau a nodir mewn deddfwriaeth a’r canllawiau a gyhoeddwyd. Nid yw wedi rhoi amodau yn ei ymatebion nac wedi cynnig eglurhad ar feysydd y mae naill ai yn ddiffygiol neu’n gweithio i sicrhau gwelliannau.

30 Fel yr wyf wedi cyfeirio ato uchod, nid yw’r Cyngor wedi paratoi na chymeradwyo ei gyfrifon am 2013-14 a 2014-15 yn briodol ac nid yw wedi darparu tystiolaeth i ddangos bod hawliau’r etholwyr wedi eu diogelu.

31 Mae Datganiadau Ariannol 2013-14 a 2014-15 yn mynnu bod y Cyngor wedi cynnal asesiad risg ffurfiol a bod camau wedi eu cymryd i reoli’r risgiau a nodwyd. Nodir yn adroddiad yr archwilydd mewnol ar gyfer 2013-14 nad oedd tystiolaeth i gefnogi’r datganiad hwn a nododd yr archwilydd mewnol yn 2014-15 bod polisi risg newydd wedi ei gyflwyno. Dywedodd y Cyngor wrth fy staff nad yw’r gwaith ar y polisi newydd hwn wedi ei gwblhau hyd yn hyn.

32 Mae Datganiadau Blynyddol 2013-14 a 2014-15 yn mynnu bod y Cyngor wedi cynnal system ddigonol o reolaeth fewnol, gan gynnwys camau sydd â’r bwriad o atal a chanfod twyll a llygredd. Yn adran nesaf yr adroddiad hwn, nodir nifer o ddiffygion a gwendidau yn rheolaethau mewnol y Cyngor sydd wedi bod yn amlwg i archwilwyr mewnol ac allanol.

33 Mae’r datgeliadau llywodraethu a wnaed gan y Cyngor felly yn anghyson, yn fy marn i, â’r sefyllfa a adlewyrchir yn ei ddogfennau ac yn wir yng nghynnwys adroddiad ei archwilydd mewnol ei hun sydd hefyd wedi’i gynnwys yn y Datganiad Blynyddol.

34 Mae’n amlwg imi nad yw’r Cyngor wedi cymryd camau digonol i fodloni ei hun bod ei drefniadau llywodraethu yn effeithiol ac wedi eu datgelu’n deg. Mae aelodau’r Cyngor yn derbyn erbyn hyn nad ydynt wedi cydnabod na chymryd camau gweithredu digonol ar ganfyddiadau blaenorol a nodwyd gan naill ai’r archwilydd mewnol na’r archwilydd allanol o ran digonolrwydd ei drefniadau llywodraethu.

# Nid yw’r Cyngor wedi cynnal rheolaethau mewnol digonol i ddiogelu ei asedau a’i gyllid

35 Mae’r cyhoeddiad **Governance and Accountability in Wales – a Practitioners’ Guide** (2011) yn nodi’r mathau o reolaethau mewnol y dylai cynghorau tref a chymuned eu gweithredu dros eu gweithgareddau a’u trafodiadau. Ceir y rhain yn Arddangosyn 2 isod ynghyd â’r trefniadau a ganfuwyd ar waith mewn gwirionedd, yn y Cyngor, gennyf i ac archwilydd mewnol y Cyngor.

Arddangosyn 2: rheolaethau mewnol a ddisgwylir a'r rhai gwirioneddol sydd ar waith yn y Cyngor

| Rheolaeth fewnol a ddisgwylir | Yr hyn a ganfûm ar waith |
|---|---|
| Daeth y gofyniad am braesept blynyddol o ganlyniad i broses gyllidebol ddigonol, cafodd y cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd ac roedd y cronfeydd wrth gefn yn ddigonol. | Nid oes tystiolaeth i ddangos bod y Cyngor wedi pennu cyllideb flynyddol a gafodd ei monitro'n effeithiol drwy gydol y flwyddyn. |
| Cysoniad rhwng cyfrifon y Cyngor a chofnodion banc annibynnol h.y. cyfriflenni banc.<br>Mae'r cysoniad banc ynghyd â chyfriflenni banc diwedd y flwyddyn yn darparu sicrwydd pwysig i'r Cyngor fod y cyfrifon a baratowyd gan ei Glerc yn llawn ac yn dangos yr arian sydd yn y banc. | • Ni chwblhaodd y Cyngor gysoniad banc diwedd y flwyddyn i gyd-fynd â'r cyfrifon blynyddol a oedd wedi eu cynnwys yn ei Ddatganiad Blynyddol ar gyfer 2013-14 a 2014-15.<br>• Yn y ddwy flynedd hyn cwblhaodd Archwilydd Mewnol y Cyngor gysoniad banc i sicrhau bod y cyfrifon yn cytuno â'r cyfriflenni banc. |
| Mae rheolaethau gwariant yn gwneud yn siŵr y gwneir pryniannau angenrheidiol yn unig.<br>Mae rheolaethau hefyd yn sicrhau bod y Cyngor yn talu dim ond am nwyddau a gwasanaethau a gafwyd ar brisiau y cytunwyd arnynt.<br>Fel corff sydd wedi'i gynnwys o dan adran 33 o Ddeddf Treth ar Werth 1994, caiff y Cyngor hawlio TAW ar bryniannau.<br>Er mwyn gwneud hyn dylai'r Cyngor gael derbynebau TAW ac anfonebau priodol sy'n nodi manylion perthnasol y TAW a dalwyd a rhif cofrestru TAW y cyflenwr. | • Ni chaiff taliadau eu hategu gan ddigon o wybodaeth bob amser.<br>• Ni wnaeth y Cyngor hawlio TAW tan fis Mai 2015. |
| Fel Cyflogwr, mae'n ofynnol i'r Cyngor ddidynnu Treth Incwm a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol o gyflog cyflogeion ac anfon y swm i CThEM bob mis neu bob chwarter ynghyd â Chyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr. Enw'r system hon yw Cynllun Talu wrth Ennill (PAYE). Mae'n rhaid talu didyniadau PAYE i CThEM.<br>Mae'n ofynnol i bob cyflogwr gadw cofnodion cyflogres hefyd. | • Ni chadwyd cofnodion cyflogres priodol fel sy'n ofynnol.<br>• Nid oedd trefniadau priodol ar waith i weithredu PAYE fel sy'n ofynnol gan CThEM.<br>• Mae'r Cyngor wedi derbyn yn ganiataol sylwadau a wnaed gan y cyn-Glerc ei bod wedi gwneud didyniadau priodol am ei henillion gan y Cyngor drwy broses hunanasesu CThEM.<br>• Ni chofrestrodd y cyn-Glerc y Cyngor fel cyflogwr yn CThEM tan fis Gorffennaf 2017. |

| Rheolaeth fewnol a ddisgwylir | Yr hyn a ganfûm ar waith |
|---|---|
| Dylai rheolaethau mewnol sicrhau bod y Cyngor yn cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir o incwm. | • Mae'r cofnodion sydd wedi eu cynnal yn anghyflawn o ran incwm a ddaeth o angladdau ac agor beddau newydd.<br>• Nid oedd incwm gwerth £1,040 o 2013-14 a nodwyd yn y cofnodion a'r llyfr arian parod wedi'i roi yn y banc.<br>• Ni chadwyd cofnodion cyflawn o incwm a ddaeth o rent tenantiaid. |
| Dylai rheolaethau mewnol fod ar waith i ddiogelu asedau a buddsoddiadau'r Cyngor rhag colled neu ddifrod ac i sicrhau y defnyddir y rhain yn briodol yn y gymuned. | • Ni chynhaliodd y Cyngor gofrestr asedau.<br>• Mae wedi dechrau gwaith ar gofrestr asedau yn ddiweddar.<br>• Nid oedd gan y Cyngor drefniadau ar waith i rannu costau na pherchnogaeth o asedau (Gliniadur ac Argraffydd) â chyngor cyfagos a oedd yn cyflogi yr un Clerc.<br>• Roedd gliniadur y Cyngor wedi ei ddifrodi yn ddifrifol pan gafodd ei ddychwelyd gan y cyn-Glerc ym mis Hydref 2017. |

## Mae effeithiolrwydd yr archwilio mewnol wedi ei wanhau gan anfodlonrwydd i adrodd ar bryderon ynglŷn â llywodraethu gwael yn uniongyrchol i'r Cyngor

36 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor tref a chymuned yng Nghymru weithredu system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol. Diben yr archwilio mewnol yw archwilio sawl maes allweddol perthnasol i brosesau llywodraethu a rheoli cyllid y Cyngor a nodi unrhyw ddiffygion perthnasol.

37 Er y gall yr union ofynion a nodir yn flynyddol ar gyfer archwilio mewnol amrywio i ryw raddau yn y Datganiad Blynyddol o flwyddyn i flwyddyn, mae'r canlynol, o ddatganiad 2014-15, yn enghraifft nodweddiadol o'r meysydd i'w harchwilio:

- mae rheoliadau ariannol y Cyngor wedi eu bodloni, ategir y taliadau gan anfonebau, cymeradwywyd gwariant ac mae TAW wedi'i gyfrifo'n briodol;
- mae'r Cyngor yn asesu'r risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac yn adolygu digonolrwydd y trefniadau ar gyfer rheoli'r rhain;
- daeth y gofyniad am braesept blynyddol o ganlyniad i broses gyllidebol ddigonol, mae'r cynnydd yn erbyn y gyllideb yn cael ei fonitro'n rheolaidd ac mae'r cronfeydd wrth gefn yn briodol;

- derbyniwyd yr incwm a ddisgwylir yn llawn, yn seiliedig ar brisiau cywir, wedi ei gofnodi'n briodol a'i roi yn y banc yn brydlon ac roedd TAW wedi ei gyfrif yn briodol;
- telir cyflogau i gyflogeion a lwfansau i aelodau yn unol â'r hyn a gymeradwywyd gan y Cyngor, a gweithredir ar ofynion PAYE ac Yswiriant Gwladol yn briodol;
- mae cofrestri asedau a buddsoddi wedi eu cwblhau yn gywir a'u cynnal yn briodol;
- cynhelir cysoniadau cyfrifon banc diwedd y flwyddyn briodol yn rheolaidd; a
- pharatowyd datganiadau cyfrifyddu yn ystod y flwyddyn ar sail gyfrifyddu gywir (derbyniadau a thaliadau neu incwm a gwariant), eu bod yn cytuno â'r llyfr arian parod, wedi'u cefnogi gan drywydd archwilio digonol o gofnodion sylfaenol, a phan fo'n briodol cofnodwyd dyledwyr a chredydwyr yn briodol.

38 Mae Archwilydd Mewnol y Cyngor wedi bod yn gysylltiedig â'r Cyngor am flynyddoedd lawer a bu'n darparu gwasanaeth archwilio mewnol i'r rhan fwyaf o gynghorau tref a chymuned ar Ynys Môn. Ymddeolodd o'r swydd yn hydref 2017. Roedd yr Archwilydd Mewnol yn brofiadol iawn, gan ei fod wedi gweithredu fel Cyfarwyddwr Cyllid prif awdurdod lleol yn flaenorol. Roedd hefyd wedi sefydlu perthynas waith cadarnhaol â Hacker Young, archwilydd allanol y Cyngor hyd at 1 Ebrill 2015.

39 O ystyried ei brofiad, ei annibyniaeth a'i gysylltiadau hirdymor â'r Cyngor, roedd trefniadau llywodraethu ei benodiad yn anffurfiol ar y cyfan. Nid oedd y Cyngor wedi cymeradwyo cylch gorchwyl cyfredol ar gyfer yr Archwilydd Mewnol ac ni adolygwyd na chofnodwyd ei benodiad yn ffurfiol ar sail flynyddol. Cyflawnodd yr Archwilydd Mewnol adroddiad archwilio mewnol llawn ar y Datganiad Blynyddol, ond ni ddarparodd unrhyw adroddiad ychwanegol na gohebiaeth i'r Cyngor yn manylu ar ganfyddiadau ei waith archwilio.

40 Amlygwyd sawl gwendid a hepgoriadau yn nhrefniadau llywodraethu'r Cyngor yn yr adroddiadau archwilio mewnol ar gyfer 2013-14 a 2014-15. Ysgogodd yr amodau hyn, ynghyd ag oedi wrth gyflwyno'r Datganiad Blynyddol i'w archwilio, Hacker Young i gynnal archwiliad allanol llawn o gyfrifon y Cyngor ar gyfer 2013-14.

41 Mae'n amlwg o'n trafodaethau â Chadeirydd presennol y Cyngor bod y Cyngor wedi bod yn ymwybodol fod y berthynas rhwng yr Archwilydd Mewnol a'r cyn-Glerc dan straen. Enghraifft o'r straen honno oedd bod y Clerc yn anfodlon ar yr amser a gymerwyd i gynnal gwaith archwilio mewnol 2013-14 ac achosodd hyn drafferthion o ran cyflawni'r gwaith archwilio allanol mewn pryd. Er i'r cyn-Glerc roi gwybod i'r Cyngor am hyn, ni throsglwyddwyd pryderon yr Archwilydd Mewnol ynglŷn â'r prosesau llywodraethu a rheoli cyllid mor amlwg. Nid oedd y cyn-Glerc yn fodlon ag ymddygiad yr Archwilydd Mewnol a gofynnodd i'r Cyngor benodi un newydd.

42 Yn seiliedig ar adolygiad o gofnodion y Cyngor, ychydig iawn o amser a neilltuwyd yng Nghyfarfodydd y Cyngor i drafod y Datganiad Blynyddol a'r datgeliadau a wnaed gan yr Archwilydd Mewnol ynglŷn â'i brosesau llywodraethu a rheoli cyllid.

43 Dim ond ar ôl i'r cyn-Glerc ymddiswyddo ac i bapurau'r Cyngor gael eu dychwelyd y canfu'r Cadeirydd pa mor ddifrifol yr oedd y pryderon a godwyd mewn gohebiaeth gan Hacker Young. Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd un aelod hirsefydlog o'r Cabinet yn ymwybodol o broblemau ond roedd wedi methu ag ennill digon o gefnogaeth gan aelodau eraill i herio gweithrediadau'r cyn-Glerc.

44 Mae'n wir hefyd, er i'r Archwilydd Mewnol rannu ei bryderon â'r cyn-Glerc a'u nodi mewn trafodaethau â Hacker Young, ni wnaeth uwchgyfeirio'r materion yn y Cyngor, er enghraifft, drwy ofyn am amser yn ystod cyfarfodydd y Cyngor pan allai fod wedi rhannu ei bryderon â'r aelodau yn uniongyrchol. Fel arall, gallai fod wedi cyflwyno adroddiad manwl ysgrifenedig i'r Cyngor yn uniongyrchol, i gefnogi'r amodau a nodwyd yn y Datganiad Blynyddol. Pe byddai wedi gwneud hyn, rwy'n credu y gellid bod wedi datrys y problemau yn gynharach.

45 Mae'r Cadeirydd yn derbyn, wrth edrych yn ôl, na wnaethant graffu'n ddigonol nac yn briodol ar y cyn-Glerc. Roedd y diffyg goruchwylio a rheoli hyn yn golygu bod y cyn-Glerc wedi gallu cadw materion pwysig a godwyd wrth archwilio o sylw'r Cyngor. Mae'r Cadeirydd yn cyfaddef nad oedd y craffu a'r oruchwyliaeth yn ddigonol mewn cysylltiad â'r Datganiad Blynyddol.

46 Golyga ymddeoliad Archwilydd Mewnol y Cyngor fod angen i'r Cyngor bellach ddod o hyd i unigolyn newydd i gyflawni'r gwaith. Mae'n bwysig bod yr Archwilydd Mewnol yn annibynnol ar y Cyngor a'i fod yn cyflawni rhaglen waith y cytunir arni. Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau y gall yr archwilydd adrodd ar unrhyw bryderon ynglŷn â phrosesau llywodraethu a rheoli cyllid y Cyngor y tu hwnt i reolaeth a dylanwad y Clerc. Dylid ystyried perfformiad yr archwilydd mewnol yn flynyddol a chadw cofnodion wrth ailbenodi.

## Mae'r Cyngor bellach wedi cymryd nifer o gamau pwysig i fynd i'r afael â gwendidau llywodraethu a amlygir yn yr adroddiad hwn

47 Ers i'n staff archwilio gwrdd â'r Cyngor ym mis Awst 2017, i godi pryderon ynglŷn â'i brosesau llywodraethu a rheoli cyllid, mae wedi ystyried ei drefniadau a'i ddiwylliant yn ofalus. Mae nifer o newidiadau pwysig wedi eu gwneud yn y Cyngor ers yr adeg honno.

48 Mae'r Cyngor wedi adolygu dyddiadau'r cyfarfodydd a'u haildrefnu i hwyluso prosesau craffu priodol ar brosesau llywodraethu a rheoli cyllid.

49 Mae'r Cyngor hefyd wedi sicrhau adolygiad annibynnol o'i drefniadau ac mae wrthi'n creu polisïau a gweithdrefnau diwygiedig. Mae wedi cryfhau gweithdrefnau awdurdodi taliadau ac mae'n rhoi gwell drefniadau ar waith i nodi a chyfrif incwm y Cyngor o'r fynwent a rhent eiddo yn briodol.

# Argymhellion

50 Amlinellir fy argymhellion i'r Cyngor yn Arddangosyn 3 isod:

Arddangosyn 3: argymhellion i'r Cyngor

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn neilltuo digon o amser i graffu ar y Datganiad Blynyddol cyn ei anfon i'r archwilydd allanol. |
| A2 | Dylai'r Cyngor gyflwyno cyfres gynhwysfawr o reolaethau ariannol mewnol yn ogystal â chofnodi ei drefniadau rheoli cyllid mewn polisi a gweithdrefn. |
| A3 | Dylai'r Cyngor ystyried gwahodd yr archwilydd mewnol i'r cyfarfod blynyddol pan drafodir yr adroddiad archwilio mewnol i hwyluso cyfnewid barn yn agored a gonest. |
| A4 | Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn cael copi o adroddiad blynyddol a thystysgrif yr archwilydd allanol a'i fod yn cael ei ystyried yn ffurfiol yn un o gyfarfodydd y Cyngor. |
| A5 | Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion statudol er mwyn hwyluso hawliau etholwyr i weld y cyfrifon blynyddol ac ymgysylltu â'r archwilydd allanol, a dylai gadw cofnodion i roi tystiolaeth ei fod yn cydymffurfio. |

# Camau nesaf

51 Mae adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn gofyn i'r Cyngor ystyried yr adroddiad mewn cyfarfod llawn o'r Cyngor o fewn un mis i'r dyddiad ar yr adroddiad hwn. Yn y cyfarfod, bydd yn rhaid i'r Cyngor benderfynu:

- a yw'n ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau yn ôl yr adroddiad;
- a ddylid derbyn argymhellion yr adroddiad; a
- pha gamau (os o gwbl) i'w cymryd mewn ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion.

52 Wedi hynny, bydd angen i’r Cyngor baratoi ymateb ysgrifenedig a chytuno ar eiriad yr ymateb hwnnw gyda mi cyn ei gyflwyno.



Anthony Barrett
Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol
30 Ionawr 2019

# Atodiad 1

## Pryderon a godwyd gan archwilydd allanol ynglŷn â sut y mae'r Cyngor yn cydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru)

Bob blwyddyn, mynegodd yr archwilydd penodedig Hacker Young ei bryderon o ran sut y mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio.

Arddangosyn 4: materion a godwyd gan yr archwilydd penodedig

| Blwyddyn Archwilio | Materion a godwyd gan yr archwilydd penodedig Hacker Young |
|---|---|
| 2009-10 | Codwyd pryderon gyda'r Clerc am gyflwyno'r Datganiad Blynyddol yn hwyr. Ni roddodd y Clerc enw na manylion cyswllt y Cadeirydd i'r archwilydd, ond rhoddodd sicrwydd y byddai gweithdrefnau yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion archwilio. |
| 2010-11 | Codwyd pryderon gyda'r Clerc am gyflwyno'r Datganiad Blynyddol yn hwyr. Ni roddodd y Clerc enw na manylion cyswllt y Cadeirydd i'r archwilydd fel y gofynnwyd iddi. |
| 2011-12 | Codwyd pryderon gyda'r Clerc am gyflwyno'r Datganiad Blynyddol yn hwyr. |
| 2012-13 | Codwyd pryderon gyda'r Clerc am gyflwyno'r Datganiad Blynyddol yn hwyr. Ni roddodd y Clerc enw na manylion cyswllt y Cadeirydd i'r archwilydd, ond rhoddodd sicrwydd y byddai gweithdrefnau yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion archwilio. |
| 2013-14 | Yr archwilydd yn hysbysu'r Clerc ei fod yn ystyried cyflwyno Adroddiad er Budd y Cyhoedd yn nodi pryderon am gyflwyno'r Datganiad Blynyddol yn hwyr. Yr archwilydd hefyd yn rhoi gwybod i'r Clerc ei bod wedi methu â chyflwyno'r Datganiad Blynyddol o fewn y terfyn amser statudol ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf. |
| 2014-15 | Dyddiad adroddiad yr Archwilydd Mewnol yw 28 Medi 2015 - dylai fod wedi bod ar gael i'r Cyngor ei ystyried (yn rhan o'r Datganiad Blynyddol) cyn 30 Mehefin 2015. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru